COMISIWN
gwasanaethau cyfreithiol

Cynllun Busnes

2011-12

cymorth cyfreithiol – mynediad teg at gyfiawnder

COMISIWN
gwasanaethau cyfreithiol

Cynllun Busnes

2011-12

Cyflwynwyd i'r Senedd o dan baragraff 15 o Atodlen 1 i
Ddeddf Mynediad at Gyfiawnder 1999

Mynegai

Rhagarweiniad 2

Y Cyd-destun Gweithredu 4

- Beth ydyn ni'n ei wneud 4
- Strwythur y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol 4
- Llywodraethu 4
- Ein hadnoddau 5
- Amgylchedd Gweithredu 5

Gweledigaeth, Amcanion Strategol a Blaenoriaethau 8

Cynllun Gweithredu ar gyfer 2011-12 11

- Comisiynu a chaffael gwasanaethau 11
- Defnyddio cyllid yn gyson ac yn ddibynadwy 12
- Gwella ein busnes 13
- Meithrin gallu 14

Dangosyddion Perfformiad Allweddol y CGC 2011-12 16

Rhagarweiniad
gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr

Mae'r Cynllun Busnes hwn am 2011-12 yn amlinellu blaenoriaethau'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol (y Comisiwn) am y flwyddyn i ddod. Mae'n disgrifio'r rhaglenni y byddwn yn eu cwblhau yn y flwyddyn gyntaf o dan yr Adolygiad o Wariant a Chynllun Busnes y Weinyddiaeth Cyfiawnder am 2011-15 fel cam cyntaf tuag at wireddu'r strategaeth yn gyffredinol. Mae'r Llywodraeth wedi nodi'n glir mai ei blaenoriaeth yw lleihau'r diffyg ariannol ac adlewyrchwyd hyn mewn setliad ariannol is drwy broses yr Adolygiad o Wariant. Mae'r papur ymgynghori ar gymorth cyfreithiol yn nodi'r cynigion i leihau cymorth cyfreithiol o £350m yn 2014-15. Bydd gan hyn oblygiadau pellgyrhaeddol o ran gweinyddu a darparu cymorth cyfreithiol dros y pedair blynedd nesaf. Yn ogystal, mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi ei bwriad i newid y Comisiwn o fod yn Gorff Cyhoeddus Anadrannol i fod yn un o Asiantaethau Gweithredol y Weinyddiaeth Cyfiawnder (y Weinyddiaeth). Mae'n hanfodol ein bod yn defnyddio'r flwyddyn bontio hon i greu sylfaen gadarn ar gyfer diwygio yn y dyfodol.

Ers ein cyhoeddiad diwethaf, sef Cynllun Busnes 2010-11, rydym wedi cwrdd â nifer o sialensau. Mae'r rhain yn cynnwys derbyn barn archwilio gymwysedig am yr ail flwyddyn yn olynol; yr adolygiad barnwrol llwyddiannus o'n tendrau contractau teuluol; a chyhoeddi papur ymgynghori ar gymorth cyfreithiol. Er gwaetha'r flwyddyn anodd, rydym wedi gweithio'n galed iawn i wneud cynnydd da mewn sawl maes. Yn 2009-10, helpodd y Comisiwn bron i dair miliwn o bobl ledled Cymru a Lloegr. Agorwyd Canolfannau Cyngor Cyfreithiol Cymunedol ym Manceinion, Wakefield, East Riding, West Sussex ac yn Barking & Dagenham. Cyflwynwyd Profion Modd Llys y Goron hefyd ar draws Cymru a Lloegr. Cafodd yr holl gontractau troseddu a'r rhan fwyaf o'r categorïau cyfraith sifil eu hail-osod. Ar yr un pryd, rydym wedi gwario 4.1% yn llai ar ein cyllideb weinyddol.

Hefyd, mae ein rhaglen waith i wella rheolaeth a rheoli ariannol wedi talu ar ei chanfed. I gyd, rydym wedi nodi ac adennill £10m o daliadau ac wedi targedu £1.3m pellach. Dywedodd pennaeth y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn ei adroddiad i'r Senedd yn Nhachwedd 2010 fod y Comisiwn wedi cydnabod bod angen iddo gryfhau ei reolaeth ariannol a'i fod yn croesawu'r camau a gymerwyd hyd yma. Dywedodd hefyd fod angen i sylw'r uwch reolwyr aros ar y gwaith hwn. Mae'r cynllun hwn yn sicrhau bod hyn yn digwydd, ac yn adeiladu ar y gwaith da a wnaed eisoes gennym.

Rôl y Comisiwn yw darparu ar ran y llywodraeth, a gweinyddu'r system cymorth cyfreithiol yn unol â dymuniadau Gweinidogion, tra'n gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd wedi eu dyrannu inni. Wrth berfformio'r dasg yma, rhaid inni gofio am ein perthynas gyda'n rhanddeiliaid; y Weinyddiaeth a'i swyddogion, darparwyr gwasanaethau cymorth cyfreithiol i'r cyhoedd, a'n partïon budd a phartïon eraill yr effeithir arnynt. Ein gweledigaeth yw ennill parch fel comisiynydd a gweinyddwr cymorth cyfreithiol.

Mae'r berthynas yma gyda'n rhanddeiliaid allweddol yn bwysicach fyth mewn cyfnod o newid, a rydym yn cydnabod bod potensial i anghytuno a herio wrth inni weithredu'r newidiadau a ddisgrifir yn y cynllun hwn.

Wrth inni weithredu unrhyw ddiwygiadau i gymorth cyfreithiol, gweithio tuag at ddiddymu ein cymhwyster cyfrifon, a lleihau ein cyllideb weinyddol o tua 23% dros y tair blynedd nesaf, bydd yn hollbwysig nad ydym yn colli ein ffocws. Bydd ein statws newydd fel Asiantaeth Weithredol yn golygu y gallwn rannu adnoddau gyda'r Weinyddiaeth Cyfiawnder, a rydym eisoes wedi dechrau torri lawr drwy ailstrwythuro sefydliadol a diswyddo gwirfoddol.

Mae llawer iawn i'w wneud dros y blynyddoedd i ddod, a nifer o sialensau, ond mae'r Comisiynwyr a'r staff yn ymroddedig i wneud i'r newidiadau hyn weithio fel bod gennym gynllun cymorth cyfreithiol sy'n cwrdd ag amcanion y Llywodraeth.

Syr Bill Callaghan
Cadeirydd

Carolyn Downs
Y Prif Weithredwr

Y Cyd-destun Gweithredu

Beth ydyn ni'n ei wneud

Mae'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol yn darparu cymorth, cyngor a gwybodaeth gyfreithiol yng Nghymru a Lloegr drwy ddau gynllun: y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol a'r Gwasanaeth Amddiffyn Troseddol. Mae ein gwaith yn hanfodol i weithrediad teg, effeithiol ac effeithlon y systemau cyfiawnder sifil a throseddol. Mae hefyd yn hollbwysig i helpu i ddarparu mynediad at gyngor cyfreithiol i rai o'r bobl fwyaf diymgeledd yn ein cymdeithas. Corff darparu ydym sy'n comisiynu a chaffael gwasanaethau cymorth cyfreithiol gan ddarparwyr (cyfreithwyr, bargyfreithwyr a'r sector di-wneud-elw).

Ein Strwythur



* Hefyd aelodau o'r Tîm Gweithredol

Llywodraethu

Ar hyn o bryd mae'r Comisiwn yn Gorff Cyhoeddus Anadrannol wedi'i noddi gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder. Fodd bynnag, mae Gweinidogion wedi cyhoeddi y byddwn, gan ddibynnu ar y ddeddfwriaeth angenrheidiol, yn dod yn un o Asiantaethau Gweithredol y Weinyddiaeth Cyfiawnder.

Mae'r Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder yn atebol i'r Senedd am ein gweithgareddau a'n perfformiad. Hefyd, o fewn Cymru, mae gan y Comisiwn gysylltiadau agos gyda Llywodraeth y Cynulliad, i gydnabod y weinyddiaeth ddatganoledig.

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn penodi bwrdd o Gomisiynwyr annibynnol sy'n gyfrifol am sefydlu a gweithredu nodau ac amcanion strategol y Comisiwn, sy'n gyson â'i gyfeiriad strategol cyffredinol ac o fewn y fframwaith polisi ac adnoddau y penderfynir arno gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

Y Prif Weithredwr yw'r swyddog sy'n atebol am ddarparu cymorth cyfreithiol a'i raglen gysylltiedig o ddiwygiadau. Pan fydd y Comisiwn yn newid i fod yn Asiantaeth Weithredol, bydd trefniadau llywodraethu newydd yn cael eu cyflwyno. Bydd bwrdd y Comisiynwyr yn cael ei ddiddymu a bwrdd newydd (wedi'i gadeirio gan y Prif Weithredwr) gydag aelodau anweithredol yn cael ei benodi. Disgwylir i'r Prif Weithredwr adrodd yn uniongyrchol i'r Ysgrifennydd Parhaol yn y Weinyddiaeth Cyfiawnder.

Ein Hadnoddau

Ein cyllideb weinyddol am flwyddyn ariannol 2011-12 yw £99 miliwn. Yn ogystal, mae gwariant cyfalaf gwerth £19m wedi cael ei ddyrannu i brosiectau'r Comisiwn, ac mae tua hanner hwn ar gyfer cwblhau'r Rhaglen Ddarparu Integredig (gweler isod).

Mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder hefyd wedi nodi maint y sialensau ariannol y byddwn yn eu hwynebu dros weddill cyfnod Adolygiad o Wariant 10 (2011-12 hyd at 2014-15). Rydym yn ffyddiog y bydd y cynlluniau a nodir yn y ddogfen hon yn arwain at ddarparu'r arbedion effeithlonrwydd angenrheidiol i fyw o fewn ein cyllideb weinyddol yn 2011-12 ond bydd y Comisiwn yn wynebu pwysau cyllidol drwy gydol cyfnod Adolygiad o Wariant 10. Bydd hyn yn sicr yn wir yn 2012-13 pryd mae'n debyg y byddwn yn wynebu pwysau ariannu sylweddol a bydd angen inni ddod o hyd i arbedion cost ychwanegol.

Ar hyn o bryd rydym yn cyflogi tua 1,500 o bobl ar draws ein swyddfeydd yng Nghymru a Lloegr a rydym yn cynllunio i leihau hyn i 1,185 erbyn Mawrth 2015. Dangosol yn unig yw'r niferoedd staff o 2011-12 ymlaen oherwydd bydd y niferoedd efallai'n amrywio, e.e. yn ôl anghenion busnes newydd a'r nifer fydd yn dewis gwirfoddoli i adael yn fuan.

Ein cyllideb weinyddol ar gyfer y Gronfa Cymorth Cyfreithiol am flwyddyn ariannol 2011-12 yw £2,144 miliwn. Fel gyda'n cyllideb weinyddol, mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder hefyd wedi nodi faint o doriadau y bydd angen inni ei wneud i gwrdd ag ymrwymiadau Adolygiad o Wariant 10 yr Adran. Bydd gallu gwario llai yn uniongyrchol gysylltiedig ag arbedion sy'n dibynnu ar ganlyniad terfynol y rhaglen diwygio cymorth cyfreithiol, a manylwn fwy isod.

Byddai rhai elfennau o'r diwygiadau arfaethedig i gymorth cyfreithiol, pe mabwysiedir hwynt, yn creu arbedion o fewn y gronfa cymorth cyfreithiol yn 2011-12. Yn amodol ar gadarnhau'r elfennau hyn o'r cynigion diwygio, rydym yn ffyddiog y bydd y rhain, yn ogystal â'r prosiectau arbedion presennol sydd i'w darparu yn 2011-12, yn ddigon inni fedru byw o fewn ein dyraniad cyllid ar gyfer 2011-12.

Mae arbedion o fewn y gronfa cymorth cyfreithiol yng ngweddill blynyddoedd cyfnod Adolygiad o Wariant 10 yn dibynnu ar ganlyniad y rhaglen diwygio cymorth cyfreithiol y bydd, mae'n debyg, angen deddfwriaeth sylfaenol ar ei chyfer gan ddibynnu ar beth fydd y penderfyniad terfynol.

Amgylchedd Gweithredu

Cyfeiriad Strategol

Ar 8 Tachwedd 2010 cyhoeddodd y Prif Weinidog gyhoeddiad Cynllun Busnes y Weinyddiaeth Cyfiawnder ar gyfer y cyfnod Adolygiad o Wariant nesaf rhwng 2011-15. Mae hwn yn nodi rhaglen o ddiwygio radical fydd yn sicrhau bod y Weinyddiaeth yn cyfrannu at greu system gyfiawnder gynaliadwy a fforddiadwy. Blaenoriaethau diwygio'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yw:

1. Cyflwyno chwyldro mewn adsefydlu
2. Diwygio dedfrydu a chosbi
3. Diwygio'r llysoedd, y tribiwnlysoedd, cymorth cyfreithiol a gweithio gydag eraill i ddarparu cyfiawnder troseddol
4. Sicrhau cyfraith well
5. Diwygio'r ffordd yr ydym yn darparu ein gwasanaethau

Fel Corff Cyhoeddus Anadrannol Weithredol o'r Weinyddiaeth Cyfiawnder, mae ein cyfeiriad strategol wedi'i nodi yn Strategaeth Gorfforaethol y Weinyddiaeth am 2011-15, sy'n amlinellu un amcan: Darparu system

gyfiawnder wedi'i gweddnewid ac adran wedi'i gweddnewid sy'n fwy effeithlon, effeithiol, yn llai costus ac yn fwy ymatebol i'r cyhoedd. Mae hyn yn gosod y cyd-destun strategol ar gyfer comisiynu a gweinyddu system cymorth cyfreithiol gost effeithiol ac o ansawdd da.

Mae gan y Weinyddiaeth gyllideb tipyn yn llai, tua £2 biliwn yn llai erbyn 2014-15, ac yn y dyfodol bydd ganddi lai o bobl. Bydd y Comisiwn yn cyfrannu at raglen ddiwygio'r Weinyddiaeth mewn nifer o ffyrdd, ond yn bennaf drwy unrhyw ddiwygiadau cymorth cyfreithiol y penderfynir eu gweithredu yn dilyn ymgynghori a darparu ein gwasanaethau'n fwy effeithiol. Erbyn diwedd cyfnod yr Adolygiad o Wariant (Mawrth 2015), bydd y gyfradd gweinyddu blynyddol £23m yn llai (cyn addasu ar gyfer chwyddiant); ac, os gweithredir y diwygiadau y byddwn yn ymgynghori arnynt yn llawn, byddwn yn disgwyl gwario £350m yn llai pob blwyddyn ar gymorth cyfreithiol nag ar hyn o bryd (hyn yn ychwanegol at yr arbedion y gobeithiwn eu gwneud o ganlyniad i fesurau sydd eisoes ar waith).

Diwygio Cymorth Cyfreithiol

Byddwn yn cefnogi'r Weinyddiaeth Cyfiawnder i ddiwygio'r system cymorth cyfreithiol fel ei bod yn gweithio'n fwy effeithlon, tra byddwn yn sicrhau bod y cymorth angenrheidiol ar gael i'r rhai sydd ei angen fwyaf arnynt ac i'r achosion sydd ei angen.

Datblygwyd y cynigion i ddiwygio cymorth cyfreithiol yn 2010, a'u cyhoeddi ar gyfer ymgynghori arnynt gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder ar 15 Tachwedd 2010. Prif fyrdwn y diwygiadau yw sicrhau bod cymorth cyfreithiol yn parhau i helpu'r rhai sydd ei angen fwyaf arnynt ac i'r achosion hynny sydd ei angen, tra'n lleihau'n gyffredinol ar wariant drwy'r gronfa cymorth cyfreithiol i £1.8 biliwn erbyn diwedd cyfnod yr adolygiad o wariant yn 2015.

Bydd gan y Comisiwn ran bwysig i'w chwarae o ran gweithio gyda'u cydweithwyr polisi, dadansoddi a chyllid yn y Weinyddiaeth i weithredu polisi Gweinidogol ar ddiwygio cymorth cyfreithiol. Mae'r Comisiwn yn blaenoriaethu dyrannu adnoddau i gefnogi'r rhaglen newid hon er mwyn sefydlu cynllun cymorth cyfreithiol cynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

Mae Gweinidogion yn bwriadu cyhoeddi eu hymateb i'r ymgynghoriad nes ymlaen yn y Gwanwyn 2011. Disgwylir y bydd angen deddfwriaeth sylfaenol ar gyfer rhai o'r cynigion diwygio terfynol. Disgwylir y bydd y ddeddfwriaeth yma hefyd yn gyfrwng i newid statws y Comisiwn o fod yn Gorff Cyhoeddus Anadrannol i fod yn Asiantaeth Weithredol.

Newid i Statws Asiantaeth Weithredol

Ar yr un pryd byddwn yn gweithio gyda chydweithwyr ar draws y Weinyddiaeth Cyfiawnder i ddiwygio ein ffordd o weithio. Bydd newid i fod yn Asiantaeth Weithredol, gan ddibynnu ar ddeddfwriaeth, yn golygu y byddwn yn gweithio'n agosach fyth gyda'n cydweithwyr yn yr Adran ehangach er mwyn elwa o gyd-wasanaethau corfforaethol fel caffael, technoleg gwybodaeth ac ystadau. Bydd gennym ganolfan gorfforaethol lai a byddwn yn canolbwyntio ein hadnoddau ar fusnes rheng flaen a chraidd.

Cymhwyster ein cyfrifon

Yn dilyn cymhwyster ein cyfrifon am 2008-09 a 2009-10, rydym yn parhau i weithio drwy ein Rhaglen Stiwardiaeth Ariannol i wella ein rheolaeth ariannol a gweithredol, i wella'r ffordd y rheolwn ein darparwyr a sut y mae'r Comisiwn yn adennill gordaliadau. Hefyd, rydym yn buddsoddi mewn system gyfrifo a gweithredu integredig (y Rhaglen Ddarparu Integredig) i'n helpu i foderneiddio ein prosesau.

Mae'r rhaglen hon yn chwarae rôl bwysig o ran sicrhau bod y Comisiwn yn cwrdd â'i amcanion. Rydym yn gweithio i gychwyn cyflwyno'r system rheoli achosion yn raddol yn 2012.

Manteision y Rhaglen Ddarparu Integredig:

- Gweithio'n Electronig – er mwyn gwneud y Comisiwn a darparwyr yn fwy effeithlon drwy orfod delio gyda llai o waith papur, ailadrodd gwaith yn codi o wallau, a cheisiadau am fwy o wybodaeth. Bydd hyn yn lleihau costau gweinyddol, ailadrodd gwaith ac oedi i bawb, ac yn cael effaith gadarnhaol ar brofiad y cwsmer drwy wneud penderfyniadau'n gynt a mwy o dryloywder.
- Rheolaeth Well – drwy ddilysu gwybodaeth electronig yn awtomataidd, cyfrifiadau awtomataidd, trin tystiolaeth a storio dogfennau'n well.
- Rheoli Dyledion yn Well – drwy wasanaethau casglu arian parod gwell a system rheoli dyledion integredig.
- Adrodd Ariannol a Strategol Gwell – drwy siart cyfrifon a chyfriflyfr cyffredinol integredig ar gyfer y Comisiwn, a thrwy wybodaeth reoli well.

Strategaeth Gwrth-Dwyll

Mae'r Comisiwn yn parhau i wella ei Strategaeth Gwrth-Dwyll fel y gallwn adnabod a mesur y risg o dwyll yn well. Byddwn yn adolygu ac yn gwella ein prosesau rheoli er mwyn atal risgiau twyll sydd wedi eu hadnabod. Byddwn hefyd yn ceisio gweithio'n agosach gydag adrannau o'r llywodraeth a chyrff rheoleiddio er mwyn gallu rhannu gwybodaeth a nodi arferion gorau. Ochr yn ochr â hyn, byddwn yn parhau i gynnal ymchwiliadau i honiadau o dwyll gyda golwg ar adennill arian, defnyddio'r sancsiynau sydd ar gael i'r Comisiwn yn y ffordd fwyaf effeithiol ac erlyn lle bo hynny'n ymarferol.

Gweithio gyda Darparwyr

Dros y blynyddoedd i ddod, byddwn yn gweithio i sicrhau bod cymorth cyfreithiol yn cael ei ddarparu drwy ein darparwyr er lles ein cwsmeriaid a thrwy roi gwerth am arian i'r trethdalwr. Bydd y polisi'n cael ei lunio gan Weinidogion y Weinyddiaeth Cyfiawnder a gwnawn ein gorau i weithredu'r polisi hwn yn y ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol. Byddwn yn gweithio'n uniongyrchol gyda darparwyr a'u cyrff cynrychioliadol i gefnogi mesurau ansawdd annibynnol ym mhob un o feysydd y gyfraith; bwriadwn barhau i roi sylw i gynaliadwyedd drwy sicrhau bod ein darparwyr yn cael eu talu'n briodol yn ddychwelyd am wasanaethau cyflym, cywir sy'n rhoi gwerth da am arian. Byddwn yn defnyddio ystod o ddulliau i sefydlu cyfraddau'r farchnad am wasanaethau, gan gynnwys, ond nid yn llwyr, cystadleuaeth. Drwy wneud hyn bydd gan y Comisiwn yr hyblygrwydd gweithredol angenrheidiol i reoli tirlun cymhleth o ran darparwyr a darparu gwasanaethau, a byddwn yn parhau i fod yn ymatebol i anghenion a blaenoriaethau newydd.

Byddwn yn darparu'r strategaeth rheoli darparwyr lle bydd angen i'n darparwyr weithio o fewn ein cynlluniau ffioedd, bilio'n gywir ac adrodd ar amser. Byddwn yn gwneud ein gorau i weithio mewn partneriaeth gyda'n darparwyr, ond lle mae'r rheini yn syrthio'n brin o'n safonau a'n disgwyliadau byddwn yn cymryd safiad cryf ar adennill gordaliadau, yn gweithredu'r sancsiynau priodol ac yn terfynu contractau lle bo hynny'n briodol.

Gwerth ac Effeithlonrwydd

Byddwn yn ceisio bod yn fwy effeithlon yn ein ffordd o weithredu, ac yn y ffordd y disgwyliwn i'n darparwyr weithredu. Rydym yn ymroddedig i leihau'r gost o reoli'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol. Yn gyffredin â phob maes gwariant cyhoeddus, bydd y gronfa ar gyfer darparu cymorth cyfreithiol yn lleihau dros gyfnod yr Adolygiad o Wariant. Mae'r Llywodraeth wedi ymgynghori ar ei chynigion i ddiwygio cymorth cyfreithiol, a rydym wedi gweu'r tybiaethau cynllunio hynny i'n cynllun, gan gydnabod y medrant yn hawdd newid. Lle mae'r cynigion yn golygu newidiadau sylweddol i'n systemau neu brosesau, rydym wedi tybio y bydd digon o gyllid yn cael ei ddarparu i gyflwyno'r newidiadau ychwanegol. Byddwn yn parhau i ofyn i'n darparwyr roi gwerth gwell am arian, a byddwn yn eu helpu i wneud hyn drwy symleiddio ein gofynion.

Gweledigaeth, Amcanion Strategol a Blaenoriaethau

Ein Gweledigaeth

'Byddwn yn gweithio gyda'n darparwyr a'r system gyfiawnder i ennill parch fel comisiynydd a gweinyddwr cymorth cyfreithiol.'

Ein hamcanion a'n blaenoriaethau am 2011-12

Amcanion Strategol y Comisiwn	Blaenoriaethau
Comisiynu a chaffael gwasanaethau sy'n rhoi mynediad amserol at gyngor cyfreithiol o ansawdd i gwsmeriaid cymwys	Caffael gwasanaethau i ddarparu mynediad at gyngor a chymorth cyfreithiol gyda'r adnoddau sydd ar gael Gweithio gyda'r Weinyddiaeth Cyfiawnder i weithredu'r diwygiadau cymorth cyfreithiol y bydd y Llywodraeth yn penderfynu eu gwneud Unwaith y cyhoeddir ein dogfen ymgynghori ar Ddiwygio Cymorth Cyfreithiol, datblygu strategaeth gomisiynu'n dangos sut y byddwn yn ceisio diwallu anghenion cwsmeriaid yn yr hinsawdd bresennol Gweithredu Strategaeth Rheoli Darparwyr gydlynus i sicrhau ein bod yn ymweld â darparwyr ar sail dull risg wedi'i chytuno arni ac un pwynt cyswllt
Defnyddio'n cyllid yn gyson a dibynadwy i sicrhau gwerth am arian	Rheoli ein cyllideb yn effeithiol Parhau i wella o ran sut y cynhyrchwn ein cyfrifon blynyddol Cwrdd â'r amserlen ar gyfer cynhyrchu cyfrifon, gan ddechrau gyda'r amcanion Llwybr Clir Parhau gyda'n rhaglen o stiwardiaeth ariannol gan gynnwys adennill gordaliadau a gwaith adennill dyledion
Gwella ein busnes drwy symleiddio prosesau, pwyso ar fod yn fwy effeithlon a dileu gwastraff	Gwell Rheolaeth Ansawdd / cyfraddau gwall is Symleiddio contractau Delio â chwynion yn well, gwella Rhyddid Gwybodaeth, sicrwydd gwybodaeth, diogelu data ayb. Symleiddio busnes
Meithrin gallu i sicrhau bod gennym y bobl iawn gyda'r sgiliau iawn i gwrdd â'n hamcanion	Strwythur a rolau sefydliadol effeithlon yn eu lle ar gyfer yr Asiantaeth Weithredol o fewn y cyfrif pennau a gyllidebwyd ar ei gyfer am 2011-12 Y staff i gyd yn deall eu rolau ynghyd â'r wybodaeth, sgiliau, cymwyseddau a'r gwerthoedd sydd angen iddynt eu cael i ddarparu wrth inni weithio drwy raglen newid y Comisiwn Prosesau Adnoddau Dynol cadarn a thryloyw yn eu lle i gefnogi'r newid sefydliadol

Sut y byddwn yn darparu ein gweledigaeth a'n hamcanion

1. Ffocws ar ddiwallu anghenion ein rhanddeiliaid, darparwyr a'n cwsmeriaid

Mae hyn yn golygu y byddwn yn comisiynu a chaffael gwasanaethau sy'n rhoi mynediad at gyngor pan fo'i angen, yn rheoli'r disgwyliadau o ran beth y gellir ac na ellir ei ddarparu, a pharhau i wella'r gwasanaeth a ddarparwn.

2. Defnyddio'r adnoddau sydd ar gael inni'n gyfrifol

Mae hyn yn golygu y byddwn yn defnyddio ein dyraniad yn gall gyda golwg o hyd ar gynnig gwerth am arian i'r trethdalwr. Byddwn yn sicrhau ein bod yn achub ar bob cyfle i rannu gwasanaethau a gweithio'n agos gyda'r Weinyddiaeth Cyfiawnder ac adrannau eraill i gyfuno gwasanaethau lle bo hynny'n bosibl. Byddwn hefyd yn parhau i wella ein rheolaeth ariannol ac i ddatblygu ein rhaglen o weithio'n electronig.

3. Gwerthfawrogi ein gilydd a chyflawni mwy drwy weithio'n gydweithredol

Mae hyn yn golygu y byddwn yn cefnogi ein pobl, ac yn darparu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i lwyddo yn eu rolau. Byddwn yn gwrando ar ein gilydd, ac yn trin cydweithwyr a rhanddeiliaid yn y ffordd y byddem am inni gael ein trin ein hunain. Byddwn yn agored i ddysgu oddi wrth ein gilydd, ac o sefydliadau eraill.

4. Creu ymddiriedaeth drwy fod yn agored a gonest

Mae hyn yn golygu y byddwn yn rhoi adborth adeiladol ac yn onest, clir a chefnogol o'n cydweithwyr. Ni fyddwn yn ofni herio'n drylwyr, ond gwnawn hyn o fewn ysbryd o gydweithio er mwyn canfod ateb sy'n dderbyniol i'r ddwy ochr. Byddwn yn ymwybodol o'n dulliau personol o gyfathrebu, ac yn teilwrio'r rhain lle bo angen i ddiwallu anghenion y gynulleidfa wrth gyfleu negeseuon pwysig fel nodau corfforaethol mewn ffordd gyson drwy bob lefel o fewn y sefydliad. Byddwn yn parhau i gynnal deialog agored gyda'r proffesiwn a rhanddeiliaid eraill ac yn cyfathrebu gyda nhw'n aml ac yn agored.

5. Trin pawb gyda pharch, beth bynnag yw eu cefndir

Mae hyn yn golygu y byddwn yn gwerthfawrogi a pharchu gwahaniaethau ein gilydd ac yn gweithio i sicrhau ein bod yn comisiynu a chaffael gwasanaethau'n deg fel bod pawb yn cael eu trin yn gyfartal. Byddwn yn rhagweithiol o ran chwalu unrhyw ffiniau diwylliannol allai godi; naill ai yn y gweithle neu wrth ddarparu gwasanaethau.

6. Cyhoeddi gwybodaeth am ddarparu gwasanaethau

Mae hyn yn golygu cyhoeddi cyfrolau gwaith, canlyniadau achosion, costau achosion, perfformiad cwmnïau a pherfformiad timau prosesu'r Comisiwn. Bydd y wybodaeth yma'n dangos i'r cyhoedd ein bod yn weinyddwyr bilio a gwaith achos effeithiol ac yn stiwardiaid arian cyhoeddus da.

Sut y byddwn yn mesur ac yn adrodd llwyddiant

Byddwn yn mesur ac adrodd ar berfformiad y sefydliad mewn nifer o ffyrdd. Yn gyntaf, byddwn yn chwarae ein rhan yn Agenda Tryloywder y Llywodraeth drwy adrodd yn rhagweithiol ar wybodaeth fel bo'r cyhoedd yn gallu penderfynu drostynt eu hunain a ydyn ni a'n darparwyr yn perfformio'n dda. Rydym yn awyddus i wneud gymaint ag y gallwn i ddangos yn agored sut yr ydym yn perfformio, ac i fod yn onest ynghylch lle mae angen inni wella.

Yn fwy gweithredol, byddwn yn mesur ein busnes craidd drwy gydol y flwyddyn fel bod ein rheolwyr yn gallu asesu a ydym ar y trywydd iawn i gwrdd â'n hamcanion. Bydd y mesurau perfformiad hyn hefyd yn cael eu hadrodd i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder – ein noddwyr – er mwyn rhoi sicrwydd iddynt ar ein perfformiad. Byddwn hefyd yn mesur yn gyson sut yr ydym yn cyrraedd y cerrig milltir a nodir yn y cynllun hwn, ac yn sicrhau y gellir cymryd camau unioni mewn da bryd fel y gallwn ddarparu ein prif raglenni gwaith yn amserol.

Yn olaf, bydd ein perfformiad ar ddiwedd y flwyddyn yn cael ei adrodd a'i gyhoeddi yn ein Adroddiad Blynyddol, fydd yn dangos yr hyn wnaethom ei gyflawni.

Risgiau

Bydd gan y Comisiwn sialensau wrth weithredu'r newidiadau a nodir yn y cynllun hwn ac yn parhau i ddarparu ein busnes craidd. Bydd y lleihad yn ein cyllideb weinyddol a gweithredu systemau prosesu newydd ar yr un pryd yn dipyn o gamp. Byddwn yn dyfeisio ffyrdd newydd ac arloesol o ddarparu mwy am lai ac yn gwrando'n ofalus ar ein rhanddeiliaid.

Yn ystod y cyfnod hwn, bydd y Comisiwn yn parhau i sicrhau ei fod yn cadw golwg ar y risgiau allweddol y bydd yn eu hwynebu. Rheolir y rhain lle bynnag y bo hynny'n bosibl a bydd trefniadau diweddaru effeithiol yn eu lle ar gyfer ein noddwyr.

Cynllun Gweithredu ar gyfer 2011-12

Mae'r tabl isod yn amlinellu'r cerrig milltir y byddwn yn eu tracio dros y flwyddyn, a'r dyddiad erbyn y gobeithiwn fod wedi cwblhau'r elfen honno.

Comisiynu a chaffael gwasanaethau sy'n darparu mynediad amserol at gyngor cyfreithiol o ansawdd i gwsmeriaid cymwys		
Carreg filltir	**Perchennog**	**Amseru**
O fewn 3 mis		
Gorffen cyflwyno cyfnod un y cynllun ffioedd graddedig i eiriolwyr	Cyfarwyddwr Rheoli Achosion	30 Ebrill 2011
Gweithredu'r camau cytunedig i ddarparu'r meini prawf llwyddiant yn y Strategaeth Rheoli Darparwyr	Pennaeth Rheoli Contractau	31 Mai 2011
Gweithredu cyfnod dau y cynllun ffioedd (gan ddibynnu ar ddeddfwriaeth)	Cyfarwyddwr Rheoli Achosion	31 Mai 2011
Datblygu'r cynigion i symleiddio contractau	Y Prif Weithredwr	1 Mehefin 2011
Cyhoeddi strategaeth gomisiynu amlinellol ar gyfer ymgysylltu gyda rhanddeiliaid	Cyfarwyddwr Comisiynu Cymorth Cyfreithiol a Rheoli Contractau	1 Mehefin 2011
Gwersi a ddysgwyd o broses tendrau sifil a throseddol 2010 gydag argymhellion cytunedig	Y Prif Weithredwr	30 Mehefin 2011
Cytuno ar broses reoli i ddarparwyr sy'n mynd yn ansolfent neu sy'n tynnu'n ôl i leihau eu cyswllt ariannol	Pennaeth Rheoli Contractau	30 Mehefin 2011
O fewn 6 mis		
Cytuno ar gynllun i weithredu unrhyw leihad mewn sgôp / cymhwyster a gynigir gan y Llywodraeth	Cyfarwyddwr Cyfreithiol a Datblygu Gwasanaethau	31 Gorffennaf 2011
Cyhoeddi strategaeth gomisiynu	Cyfarwyddwr Comisiynu Cymorth Cyfreithiol a Rheoli Contractau	31 Gorffennaf 2011
Cytuno ar fframwaith sicrhau ansawdd ar gyfer Rheoli Contractau	Pennaeth Rheoli Contractau	31 Gorffennaf 2011
Paratoi ar gyfer ail-osod y tendrau Teuluol (daw'r contractau presennol i ben ar 1 Rhagfyr 2011)	Cyfarwyddwr Comisiynu Cymorth Cyfreithiol a Rheoli Contractau	30 Medi 2011

O fewn 9 mis		
Cytuno gyda'r Weinyddiaeth Cyfiawnder a chomisiynu cynllun ar gyfer cystadlu troseddol	Cyfarwyddwr Comisiynu Cymorth Cyfreithiol a Rheoli Contractau	31 Hydref 2011
Cyhoeddi cynllun yng nghyswllt yr holl weithgareddau tendro gofynnol eraill, gan ystyried yr ymarfer alldro ar gyfer tendrau sifil a throseddol 2010, gan gynnwys arwydd o'r amserlen ar gyfer sifil a throseddol o hyn ymlaen i'r dyfodol	Cyfarwyddwr Comisiynu Cymorth Cyfreithiol a Rheoli Contractau	31 Hydref 2011
Gweithredu unrhyw ostyngiadau ffioedd erbyn dyddiad cytunedig	Cyfarwyddwr Cyfreithiol a Datblygu Gwasanaethau	31 Hydref 2011
O fewn 12 mis		
Gweithredu'r contractau Teuluol newydd	Cyfarwyddwr Comisiynu Cymorth Cyfreithiol a Rheoli Contractau	31 Mawrth 2012

Defnyddio'n cyllid yn gyson a dibynadwy i sicrhau gwerth am arian		
Carreg filltir	**Perchennog**	**Amseru**
O fewn 3 mis		
Ymgysylltu'n agos gyda'r Weinyddiaeth Cyfiawnder i gostio tybiaethau cytunedig ar gyfer y cynigion ar gyfer y Rhaglen Diwygio Cymorth Cyfreithiol yn dilyn ymgynghori	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Chorfforaethol	1 Ebrill 2011
Cyflwyno fframwaith gwell ar gyfer sicrhau ansawdd	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Chorfforaethol	31 Mai 2011
Cwblhau'r Cyfrifon Ariannol ar gyfer Gweinyddu ac ymateb i Lythyr Rheoli drafft y Swyddfa Archwilio Genedlaethol i wella rheolaeth fewnol	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Chorfforaethol	30 Mehefin 2011
Gwella ymhellach yr holl fformatau cyfrifon rheoli fel eu bod yn gyson â chyd-wasanaeth y Weinyddiaeth Cyfiawnder ac i adlewyrchu'r sefydliad newydd a chefnogi prosesau penderfynu yn y cyfarwyddiaethau	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Chorfforaethol	30 Mehefin 2011
Adolygu'r rheolau ariannol a gynlluniwyd o dan y Rhaglen Ddarparu Integredig a goleuo'r penderfyniadau ar gyfer dyluniad manwl y rhaglen	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Chorfforaethol	30 Mehefin 2011
Gyda rheolwyr achos, datblygu gwelliannau pellach i'r stiwardiaeth ariannol a rheolau gweithredol	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Chorfforaethol	30 Mehefin 2011

O fewn 6 mis		
Ystyried yn llawn a gweithredu'r argymhellion archwilio yn llythyr rheoli'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol er mwyn gwella'r rheolaeth fewnol ar gyfer Cyfrifon Cronfeydd	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Chorfforaethol	30 Medi 2011
Datblygu stiwardiaeth ariannol i ystyried y cynigion ar gyfer y Rhaglen Diwygio Cymorth Cyfreithiol	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Chorfforaethol	30 Medi 2011
Partneriaid Busnes Sifil a Throseddol newydd yn gweithio'n effeithiol ar draws cyllid a'r busnes	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Chorfforaethol	30 Medi 2011
O fewn 9 mis		
Adnabod a lliniaru gwendidau rheoli yn y Systemau Gwybodaeth Gorfforaethol a Gweinyddu'r Gwaith Contract	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Chorfforaethol	31 Rhagfyr 2011

Cofiwch y gall y cerrig milltir ar gyfer y Rhaglen Ddarparu Integredig newid oherwydd eu bod yn destun negodi cytundebol, bod yr achos busnes yn cael ei gymeradwyo a chynlluniau darparu'n cael eu cwblhau.

Gwella ein busnes drwy symleiddio prosesau, pwyso ar fod yn fwy effeithlon a dileu gwastraff		
Carreg filltir	**Perchennog**	**Amseru**
O fewn 3 mis		
Treialu'r lleoliad cytunedig ar gyfer y Rhaglen Ddarparu Integredig	Cyfarwyddwr y Rhaglen Ddarparu a Newid Integredig	31 Mai 2011
O fewn 6 mis		
Cynllun pontio cytunedig ar gyfer rheoli achosion	Cyfarwyddwr Rheoli Achosion	30 Medi 2011
Ar gyfer Achosion Plant / Teuluol Cost Uchel Iawn byddwn yn cyflwyno "Event 2 Pilot" ar gyfer achosion gydag un Cwnsel. Bydd hyn yn gostwng y costau cynllunio achosion fel cyfnewid am ddull ffioedd graddedig	Cyfarwyddwr Achosion Cost Uchel	30 Medi 2011
O fewn 9 mis		
Mae system y Rhaglen Ddarparu Integredig ar gael ar gyfer hyfforddiant mewnol	Cyfarwyddwr y Rhaglen Ddarparu a Newid Integredig	30 Tachwedd 2011
Profion cymhwyso wedi eu cwblhau	Cyfarwyddwr y Rhaglen Ddarparu a Newid Integredig	31 Rhagfyr 2011

O fewn 12 mis		
Cychwyn gweithredu'r Rhaglen Ddarparu Integredig	Cyfarwyddwr y Rhaglen Ddarparu a Newid Integredig	31 Ionawr 2012
Peilot y System Rheoli Achosion a Chwsmeriaid yn cychwyn	Cyfarwyddwr y Rhaglen Ddarparu a Newid Integredig	31 Ionawr 2012
Peilot y Rhaglen Rheoli Cofnodion Data Electronig yn cychwyn	Cyfarwyddwr y Rhaglen Ddarparu a Newid Integredig	31 Mawrth 2012
Byddwn yn gweithio fel rhan o'r Is-grŵp Achosion Cost Uchel Iawn i ddatblygu canllawiau Arferion Gorau gyda'r farnwriaeth i ddatblygu a gweithredu Protocol Twyll Trwm newydd os bydd yn mynd yn ei flaen	Cyfarwyddwr Achosion Cost Uchel	31 Mawrth 2012

Meithrin gallu i sicrhau bod gennym y bobl iawn gyda'r sgiliau iawn i gwrdd â'n hamcanion		
Carreg filltir	**Perchennog**	**Amseru**
O fewn 3 mis		
Cychwyn y rhaglen o ymgysylltu gyda'r gweithwyr ar y weledigaeth	Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol	30 Mehefin 2011
O fewn 6 mis		
Gweithredu a phrosesu cynllun wedi'i ddiffinio i symud staff i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder a chyd-wasanaethau	Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol	30 Medi 2011
Cwblhau'r rhaglen o ymgysylltu gyda'r gweithwyr ar y weledigaeth	Tîm Gweithredol	30 Medi 2011
Strwythur sefydliadol cyfan ar gyfer statws Asiantaeth Weithredol wedi'i ddylunio	Y Prif Weithredwr	30 Medi 2011
O fewn 9 mis		
Disgrifiadau a gwerthusiadau swydd newydd wedi eu cwblhau	Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol	31 Rhagfyr 2011
Cytundebau Lefel Gwasanaeth cytunedig gyda'r Weinyddiaeth Cyfiawnder i adnabod pa wasanaethau y gellir eu rhannu	Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol	31 Rhagfyr 2011
Cynllun cyfathrebu gyda'r staff ac ymgynghori undebol yn ei le ar gyfer trosglwyddo i fod yn Asiantaeth Weithredol	Prif Weithredwr / Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol & Datblygu Sefydliadol	31 Rhagfyr 2011

O fewn 12 mis		
Rhaglenni cynefino wedi eu paratoi ar gyfer statws Asiantaeth Weithredol a'r Weinyddiaeth Cyfiawnder	Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol	31 Mawrth 2012
Cwricwlwm Cyffredin y Gwasanaeth Sifil wedi'i gyfathrebu a'i integreiddio i'r staff i gyd	Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol	31 Mawrth 2012
Rolau'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol wedi eu mapio i strwythur yr Asiantaeth Weithredol	Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol	31 Mawrth 2012
Cwblhau symud i'r strwythur uwch-swyddogion newydd	Y Prif Weithredwr	1 Ebrill 2012

* Mae'r gweithredu ar gyfer trosglwyddo yn Asiantaeth Weithredol yn tybio ein bod yn dod yn AW, ond mae hyn yn dibynnu ar ddeddfwriaeth.

Dangosyddion Perfformiad Allweddol y CGC 2011-12

Dangosyddion Perfformiad Allweddol y CGC 2011-12		
Amcan Strategol	**Pennawd DPA**	**Disgrifiad DPA**
Comisiynu a chaffael gwasanaethau sy'n rhoi mynediad amserol at gyngor cyfreithiol o ansawdd i gwsmeriaid cymwys	DPA 1: Darpariaeth	• Darpariaeth lawn o'r rotâu dyletswydd – 100% (h.y. digon o gwmnïau yn yr ardal System Cyfiawnder Troseddol berthnasol) • 98% o ddarpariaeth Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol i bob ardal gaffael
Defnyddio'n cyllid yn gyson a dibynadwy i sicrhau gwerth am arian	DPA 2: Darparu'r rhaglen waith a'r rhaglenni arbedion a fydd yn ein helpu i fyw o fewn y gyllideb sydd wedi ei darogan ar gyfer blwyddyn ariannol 2011-12 DPA 3: Gweithredu'r mesurau effeithlonrwydd priodol fel y gallwn fyw o fewn y gyllideb weinyddol am y flwyddyn ariannol 2011-12 DPA 4: Rheolaeth Ariannol	• Hefyd, byddwn yn monitro cost gyfartalog pob achos cymorth cyfreithiol • Byddwn hefyd yn monitro'r cyfraddau llwyddiant a budd ar gyfer ein cwsmeriaid • Gweithredu adennill gwerth £10m o arian • Lleihau ein dyled o £10m • Lleihau cyfraddau gwallau teuluol canol blwyddyn o 20%
Gwella ein busnes drwy symleiddio prosesau, pwyso ar fod yn fwy effeithlon a dileu gwastraff	DPA 5: Mesurau ansawdd ac amseroedd prosesu cymorth cyfreithiol DPA 6: Gwasanaeth cwsmeriaid (cwynion)	Mae'r DPA hwn yn cynnwys 12 mesur sy'n rhoi arwydd o brofiad y cwsmer ar sail ansawdd y gwasanaeth a chyflymdra'r penderfyniad i gwrdd â'r DPA hwn, rhaid cyflawni lefelau perfformiad ar o leiaf 10 allan o 12 o dargedau Cerdyn sgorio gwasanaeth cwsmer diwygiedig ar ddelio gyda chwynion, llythyrau Aelodau Seneddol, Rhyddid Gwybodaeth, y Ddeddf Diogelu Data a Sicrwydd Gwybodaeth
Meithrin gallu i sicrhau bod gennym y bobl iawn gyda'r sgiliau iawn i gwrdd â'n hamcanion	DPA 7: Rheoli Perfformiad a Phobl	• Diwrnodau absenoldeb salwch i fod yn gyfartalog o 7.66 neu'n llai am bob person am y flwyddyn • 99% o'r staff i gael Adolygiad Datblygu Perfformiad

Y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol

© Hawlfraint y Goron 2011

Mae'r Cynllun Busnes ar gael i'w lawrlwytho yn Gymraeg a Saesneg yn www.legalservices.gov.uk o dan About Us > Our Publications

www.legalservices.gov.uk